

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Pysgodfeydd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Pysgodfeydd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Ionawr 2020. Mae'r Bil i'w weld yma:

[Dogfennau'r Bil - Bil Pysgodfeydd 2019-20 – Senedd y DU](#)

Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU yn wedi datgan y bydd y Bil Pysgodfeydd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig weithredu fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (UNCLOS) ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
 - amcanion polisi mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu, datganiadau pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd;
 - mynediad i bysgodfeydd Prydain;
 - trwyddedu cychod pysgota;
 - pennu a dosbarthu cyfleoedd pysgota;
 - creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb yr awdurdod i wneud hynny;
 - grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu gadwraeth forol
 - adennill costau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
 - rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach mewn cysylltiad â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid dyfrol;
 - gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn perthynas â chamddefnyddio pysgodfeydd môr; ac at ddibenion cysylltiedig.
6. Cyflwynwyd y Bil Pysgodfeydd yn flaenorol gerbron Senedd y DU ym mis Hydref 2018 ac fe'i diwygiwyd yn dilyn y cyfnod craffu gan Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a memorandwm cydsyniad

deddfwriaethol atodol gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd 2018 ac ym mis Ionawr 2019 yn y drefn honno. Fodd bynnag, yn dilyn yr addoedi ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019, syrthiodd y Bil. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ymdrin â'r holl ddarpariaethau perthnasol o fewn y Bil newydd a gyflwynwyd ar 29 Ionawr 2020. Mae'r Bil hefyd, ar gais Llywodraeth Cymru, yn cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae gofyn cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a restrir isod oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Amcanion pysgodfeydd, datganiadau pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd

8. Mae Cymal 1 yn diffinio set o amcanion pysgodfeydd sy'n gymwys ar draws y DU gyfan. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cynaliadwyedd, dull gweithredu rhagofalus, sgil-ddalfeydd a mynediad cyfartal i gychod y DU yn nyfroedd y DU.
9. Mae Cymal 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd (FPA) baratoi a chyhoeddi Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) o fewn 18 mis o ddyddiad pasio'r Ddeddf. Rhaid i JFS nodi polisiau a fydd yn cyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu'n cyfrannu at eu cyflawni. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad gael ei lunio yn egluro y bydd cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion neu i gyfrannu at eu cyflawni. Mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys a/neu ei bennu yn y datganiad. Caiff Gweinidogion Cymru eu diffinio fel FPA yng Nghymal 48 - dehongli.
10. Mae Cymal 3 yn caniatáu i'r JFS gael ei ddisodli neu ei ddiwygio. Mae'n cyflwyno Atodlen 1 ac yn nodi amseriadau i'r JFS gael ei adolygu o leiaf bob 6 mlynedd.

11. Atodlen 1 - Datganiadau Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli: paratoi a chyhoeddi
Mae Rhan 1 yn diffinio'r weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi JFS. Mae Rhan 1, paragraff 2 yn ei gwneud yn ofynnol i FPA baratoi JFS drafft ac ymgynghori â phobl sydd â diddordeb. Mae Rhan 1, paragraff 3(1) yn darparu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, yn eu rôl fel FPA, osod JFS drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rhan 1, paragraff 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi'r JFS terfynol.

Mae Rhan 3 yn diffinio'r weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynllun rheoli pysgodfeydd. Mae paragraff 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r FPA ymgynghori ar y drafft â phobl sydd â diddordeb ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir arno. Mae Rhan 3, paragraff 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd terfynol.

12. Mae Cymal 6 yn nodi dyletswydd i baratoi a chyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a restrir yn y JFS. Rhaid i'r cynllun bennu pob pysgodyn môr, y math o bysgota a'r ardal y mae'n berthnasol iddi a pha ddangosyddion y bydd yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun. Yn ogystal â hynny, bydd yn ystyried a yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i asesu cynnyrch cynaliadwy mwyaf stoc a pha gamau sydd angen eu cymryd yn sgil yr asesiad hwn.
13. Mae Cymal 7 yn nodi bod Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn gallu cael eu diwygio, eu disodli neu eu diddymu mewn ymateb i newid perthnasol mewn amgylchiadau. Os nad yw'r newidiadau i'r cynlluniau yn gyson â'r JFS, rhaid i'r FPA wneud datganiad yn egluro'r rhesymau am hyn.
14. Mae Cymal 8 yn darparu y gellir diwygio neu ddisodli Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a bod yn rhaid eu hadolygu o leiaf bob 6 mlynedd. Mae hefyd yn cyflwyno Rhan 3 o Atodlen 1 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod sy'n paratoi cynllun ymgynghori yn ei gylch â phobl sydd â diddordeb.
15. Mae Cymal 9 yn gwneud darpariaeth fyrdymor ar gyfer awdurdodau polisi pysgodfeydd i baratoi a chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd cyn y JFS cyntaf.
16. Mae Cymal 10 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod pysgota cenedlaethol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, arfer pob swyddogaeth mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaethu yn unol â'r JFS a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd oni bai bod newid perthnasol mewn amgylchiadau yn nodi fel arall ac, yn yr achos hwnnw, rhaid nodi'r rhesymau am hynny mewn dogfen a fydd yn cael ei chyhoeddi.
17. Mae Cymal 11 yn cyflwyno'r gofyniad i awdurdodau polisi pysgodfeydd baratoi a chyhoeddi adroddiad ar i ba raddau y mae polisiâu yn y JFS wedi gweithredu a chyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu wedi cyfrannu at eu cyflawni. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys i ba raddau y mae polisiâu o fewn y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd wedi'u gweithredu ac wedi effeithio ar lefel stociau pysgod môr. Mae'r cyfnod adrodd unwaith bob tair blynedd a rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad.

Mynediad i Bysgodfeydd Prydain a rheoleiddio cychod pysgota tramor

18. Mae Cymal 12 yn gorchymyn na chaiff cwch pysgota tramor fynd i ddyfroedd Prydain heb fod ganddo drwydded bysgota ddilys y DU neu heb bwrpas a gydnabyddir mewn cyfraith neu gytuniad rhyngwladol.
19. Mae Cymal 13 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth Gweinidogion Cymru, i sicrhau ei bod yn gymwys i'r un graddau i gychod pysgota tramor a chychod pysgota Prydeinig.

Trwyddedu cychod pysgota

20. Mae Cymal 14 yn darparu y gwaherddir cychod pysgota Prydeinig rhag pysgota unrhyw le oni bai y caiff ei awdurdodi gan drwydded. Mae'n mynd yn ei flaen i nodi sawl eithriad i'r rheol gyffredinol honno (ailddatgan y gyfraith bresennol). Mae Cymal 14(3) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r eithriadau drwy reoliadau, o dan y weithdrefn gadarnhaol, gyda chysyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon. Os yw cwch yn pysgota yn groes i'r gofyniad hwn, mae'r meistr, y perchennog a'r siartrwr (os oes un) i gyd yn euog o drosedd.
21. Mae Cymal 15 yn darparu ei bod yn fater i bob cenedl o'r DU drwyddedu ei chychod pysgota eu hunain. At ein dibenion ni, mae Cymal 15 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi trwydded bysgota mewn cysylltiad â chwch pysgota Cymreig.
22. Mae Cymal 16 yn darparu y gwaherddir cwch pysgota tramor rhag pysgota o fewn terfynau pysgodfa Prydain oni bai y caiff ei awdurdodi gan drwydded. Mae'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol greu, amrywio neu ddiwygio eithriadau mewn perthynas â'r gofyniad hwnnw, drwy reoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol, gyda chysyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon.
23. Mae Cymal 17 yn darparu pwerau ar gyfer pob cenedl o'r DU i roi trwydded i gychod pysgota tramor mewn perthynas â'r ardal weinyddu berthnasol. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i drwyddedu cychod pysgota tramor yng Nghymru ac ym mharth Cymru.
24. Mae Cymal 18 yn darparu diffiniad o 'drwydded pysgota môr' ar gyfer y Ddeddf ac yn cyflwyno Atodlen 3.
25. Atodlen 3 - Trwyddedau Pysgota Môr: Darpariaethau Pellach

Mae Atodlen 3 yn nodi amrywiaeth o ddarpariaethau sy'n ymwneud â thrwyddedau pysgota môr, gan gynnwys y gallu i osod amodau ar drwydded pysgota môr a bod torri amod trwydded yn drosedd. Mae'n darparu pŵer i amrywio amodau ac i atal neu ddiddymu trwyddedau pysgota môr. Mae paragraff 4 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod trwyddedu pysgod môr i gydymffurfio â cheisiadau gan awdurdodau eraill o'r fath er mwyn sicrhau cysondeb rheoleiddiol. Mae paragraff 7 yn rhoi'r pŵer i bob awdurdod cenedlaethol (sy'n cael ei ddiffinio fel Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â thrwyddedu cychod pysgota o Gymru neu gychod pysgota tramor yng Nghymru neu barth Cymru) wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y caiff yr awdurdod trwyddedu pysgod y môr (hefyd Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r materion a nodwyd uchod) yn arfer eu swyddogaethau trwyddedu. Os nad yw'r Rheoliadau hynny yn cynnwys darpariaeth i leihau'r amser y caiff cwch pysgota dreulio ar y môr (yn yr achos hwnnw byddai gweithdrefn gadarnhaol yn berthnasol), mae'r weithdrefn negyddol yn berthnasol. Mae paragraff 8 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth y gellir ei gwneud gan naill ai Gweinidogion Cymru,

Gweinidogion yr Alban neu Adran Gogledd Iwerddon gyda chysyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon.

Mynediad a Thrwyddedu: troseddau a diwygiadau canlyniadol

26. Mae Cymal 19 yn nodi'r cosbau ar gyfer troseddau o dan y cymalau blaenorol. Mae Cymal 20 yn cymhwyso troseddau o dan gymalau blaenorol i gyrff corfforaethol. Mae Cymal 21 yn cadarnhau y dylid cychwyn achos yn y Deyrnas Unedig mewn perthynas â thrwydded o'r fath.

27. Mae Cymal 22 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n cynnwys diwygiadau canlyniadol.

28. Atodlen 4 - Mynediad a thrwyddedu: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Mae Atodlen 4 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r llyfr statud, sy'n ganlyniadol i'r darpariaethau trwyddedu sydd wedi'u cynnwys yng Nghymalau 12 ac 14 i 21 i sicrhau bod gweddill y llyfr statud yn cyfeirio'n gywir at y darpariaethau trwyddedu newydd hynny.

Cyfleoedd pysgota

29. Mae Cymal 23 yn darparu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfanswm cyfleoedd pysgota'r DU o ran yr uchafswm o bysgod môr (cwota dal) ac uchafswm y dyddiau y caiff cychod pysgota o Brydain dreulio ar y môr (cwota ymdrech) a hynny yn unig er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymadau rhyngwladol i bennu cyfleoedd pysgota'r DU. Mae Cymal 23 yn rhoi pŵer eang i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cwotâu ar gyfer y DU, a ellid fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd fod yn berthnasol i stociau rhywogaethau pysgod sy'n gyfan gwbl o fewn dyfroedd un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn unig. Mewn perthynas â'r cwota ymdrech, mae cymal 23(8) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i bennu nifer y dyddiau y tybir bod cwch wedi'i dreulio ar y môr.

30. Mae Cymal 24 yn darparu mai dim ond ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban, Adran Gogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) y gellir pennu cyfleoedd pysgota (cwota dal a chwota ymdrech) o dan Gymal 23.

31. Mae Cymal 25 yn diwygio Erthygl 17 o Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i osod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol, y MMO, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon, fel awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol, o ran dosbarthu cyfleoedd pysgota.

32. Mae Cymal 26 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cenedlaethol perthnasol i arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â physgodfeydd mewn ffordd sy'n sicrhau na eir dros y cwotâu dal ac ymdrech y DU.

33. Mae Cymal 27 yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ar gyfer gwerthu cyfleoedd pysgota am flwyddyn galendr.

34. Atodlen 5 - Gwerthu cyfleoedd pysgota Cymru am flwyddyn galendr

Mae Atodlen 5 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer gwerthu hawliau i ddefnyddio cwota dal Cymru a chwota ymdrech am flwyddyn galendr. Byddai'r cwota ar gael ar gyfer cychod pysgota Cymru. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol.

Grantiau a chostau

35. Mae Cymal 33 yn cyflwyno Atodlen 6 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chreu cynlluniau cymorth ariannol.

36. Atodlen 6 - Cymorth Ariannol: Pwerau Awdurdodau Datganoledig

Mae Paragraff 1 o Atodlen 6 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru roi cymorth ariannol neu drefnu rhoi cymorth ariannol i unrhyw berson at ddibenion penodol. Darperir y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru neu barth Cymru neu gychod pysgota o Gymru. Mae'n rhaid i gymorth ariannol o'r fath gael ei roi yn unol â chynllun a sefydlwyd drwy reoliadau (yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol) a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 3 o Atodlen 6 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

37. Mae Cymal 34 yn cyflwyno Atodlen 7 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i godi taliadau.

38. Atodlen 7 - Codi taliadau: pwerau Awdurdodau Datganoledig

Mae Atodlen 7 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i godi taliadau mewn cysylltiad â swyddogaethau morol perthnasol, gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â chwotâu pysgota, sicrhau bod gweithgareddau pysgota yn cael eu cyflawni'n gyfreithlon, cofrestru prynwyr a thystysgrifau dalfeydd. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol cyn arfer y pŵer hwn. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cynulliad drwy weithdrefn penderfyniad negyddol.

39. Mae Cymal 35 yn diwygio Deddf Pysgodfeydd 1981 i ddileu cyfeiriad at Aelod-wladwriaeth.

Pwerau i wneud darpariaeth bellach

40. Mae Cymal 36 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau ynghylch pysgodfeydd a dyframaethu ar gyfer dibenion penodol a restrir. Mae Cymal 38 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau ynghylch clefydau anifeiliaid dyfrol. Mae Cymal 39(3) yn darparu na all yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y swyddogaethau hynny i'r graddau y byddai'n ymwneud â mater o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae Cymal 40(2) yn darparu y gellid

cynnwys darpariaeth o'r fath gyda chysyniad Gweinidogion Cymru. Mae Cymal 39(4) yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch cychod pysgota Cymreig y tu allan i barth Cymru. Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud darpariaeth o dan Gymalau 36 neu 38 mewn unrhyw achos (Cymal 41).

41. Mae Cymal 42 yn cyflwyno Atodlen 8 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n gymesur â chymalau 36 a 38.

42. Atodlen 8 - Pwerau i wneud darpariaeth bellach: Awdurdodau Datganoledig
Mae paragraff 6 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â physgodfeydd a dyframaethu i wneud darpariaeth at ddibenion gweithredu rhwymedigaeth ryngwladol y DU sy'n ymwneud â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaethu, at ddiben cadwraeth neu at ddiben diwydiant pysgota. Mae Paragraff 8 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch clefydau anifeiliaid dyfrol. Mae Paragraff 9(3) yn cadarnhau mai dim ond i wneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, pe bai wedi'i chynnwys o fewn Deddf y Cynulliad y caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hynny. Mae paragraff 10 yn darparu oni bai bod y Rheoliadau hynny yn ymdrin â materion penodol a restrir (er enghraifft, diwygio deddfwriaeth sylfaenol), byddant yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Cynulliad drwy weithdrefn penderfyniad negyddol. Pan fo'r amgylchiadau a bennir ym mharagraff 10(2) yn bodoli, mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae paragraff 10(1) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon a phersonau eraill y mae'n debygol yr effeithir arnynt cyn gwneud Rheoliadau o'r fath.

Amrywiol

43. Mae Cymal 43 yn diwygio adran 108A (cymhwysedd deddfwriaethol) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") ac yn gwneud nifer o newidiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2006. Mewnosodir adran 108A(4A) newydd sy'n darparu bod cyfeiriadau at Gymru yn isadrannau (2)(b) a (3) o adran 108A i Gymru yn cynnwys ardal parth Cymru mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod. Yr effaith, mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod, yw bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei estyn i Gymru ac i barth Cymru. Mae'r darpariaethau cychwyn yn golygu bod Cymal 43 (cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad) yn dod i rym yn awtomatig ar ôl pasio'r Ddeddf (o fewn dau fis drwy gonfensiwn).

44. Mae Cymal 44 yn cyflwyno Atodlen 9 sy'n cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr.

45. Atodlen 9 - Pwerau sy'n ymwneud â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr
Mae Atodlen 9 yn darparu pwerau sy'n ymwneud â chamddefnyddio adnoddau pysgodfeydd môr drwy wneud sawl diwygiad i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae paragraff 12 o Atodlen 9 yn mewnosod adrannau 134A i 134C newydd yn Neddf 2009 sy'n darparu'r pwerau a ganlyn ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Mae Adran 134A yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchmynion mewn perthynas â Chymru at ddibenion gwarchod planhigion ac anifeiliaid morol neu gynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol. Mae Adran 134B yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchmynion mewn perthynas â rhanbarth môr mawr Cymru (h.y. ardal parth Cymru sydd y tu hwnt i Gymru) at ddibenion gwarchod planhigion ac anifeiliaid neu gynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol neu nodweddion o ddiddordeb daearegol neu geomorffolegol. Mae Adran 134C yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y materion y gellir eu cynnwys mewn Gorchmyn o dan adrannau 134A neu 134B.

Mae paragraffau 18 o Atodlen 9 yn mewnosod isadran 135(1A) newydd yn Neddf 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r MMO, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon a phersonau eraill y mae'n debygol yr effeithir arnynt cyn gwneud Gorchmyn o dan yr isadran 134B newydd. Mae paragraff 19 o Atodlen 9 yn mewnosod is-adran 136(1A) newydd yn Neddf 2009 sy'n estyn pŵer adran 136 i wneud Gorchmynion Dros Dro i ranbarth môr mawr Cymru. Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen brys i wneud gorchmyn o dan adran 134A neu 134B, mae paragraff 18(6) yn darparu y caiff y gofyniad i ymgynghori ei hepgor yn debyg i'r pwerau presennol yn adran 134 o Ddeddf 2009. Mae paragraffau 22 i 31 yn gwneud diwygiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2009 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud deddfwriaeth yn unol â'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad drwy weithdrefn penderfyniad negyddol yn rhinwedd adran 316(8) o'r Ddeddf honno.

46. Mae Cymal 45 yn cyflwyno Atodlen 10.

47. Atodlen 10: Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Mae Atodlen 10 yn dirymu Erthygl 2 (amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin), Erthygl 5 ac Atodiad I (hawl mynediad cyfartal ar gyfer cychod pysgota'r UE i ddyfroedd aelod-wladwriaethau), ac Erthygl 16 (dosbarthu cyfleoedd pysgota gan y cyngor i aelod-wladwriaethau).

Darpariaethau yn y Bil na cheisir cydsyniad ar eu cyfer

48. Mae Cymal 4 yn diffinio Datganiad Pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol (SSFS) a'i berthynas â JFS/â'r JFS. Mae'n darparu y caiff JFS hepgor polisi perthnasol yr

Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n diffinio polisiâu perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol ac yn darparu y dylid eu cynnwys o fewn SSFS.

49. Mae Cymal 5 yn nodi darpariaethau o ran amseru, cyhoeddi, adolygu a diwygio SSFS. Mae darpariaethau pellach yn Atodlen 1 yn creu gofyniad i ymgynghori a gofyniad bod drafft o'r ddogfen ymgynghori yn cael ei osod gerbron Senedd y DU.
50. Mae Cymalau 28 - 32 yn ymwneud â chynlluniau codi tâl i atal gwaredu pysgod ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau mewn perthynas â Chymru.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Pysgodfeydd

51. Mae'r Bil Pysgodfeydd yn creu prif elfennau deddfwriaethol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd a rhoi cymorth i bysgodfeydd wrth symud ymlaen. Bil ar lefel y DU yw'r unig ffordd briodol o gymhwyso'r darpariaethau hyn, oherwydd bod hynny'n darparu set unffurf o bwerau, rhwymedigaethau ac amcanion.
52. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd. Rydym yn croesawu cynnwys Cymal 43 sy'n estyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar gyfer materion sy'n ymwneud â physgodfeydd y tu hwnt i Gymru, ym mharth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cymhwysedd y Cynulliad yn unol â chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
53. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd pwerau Gweinidogion Cymru yn y Bil fel mesur dros dro hyd nes bod Bil Pysgodfeydd Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad.
54. Tan fod y Bil hwn yn cael ei basio, o fewn y trefniadau datganoli presennol, dim ond ymdrin â'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol mewn perthynas â Chymru (nid parth ehangach Cymru) y bydd Bil gan y Cynulliad yn gallu ei wneud. Bydd hynny'n arwain at ddiffyg cysondeb, ac at ddibynnu'n rhannol ar Fil y DU ac yn rhannol ar Fil Pysgodfeydd Cymru.
55. Mae'n briodol, felly, ein bod yn sicrhau'r pwerau hyn nawr i'n galluogi i weithredu'n gyflym ac mewn ffordd bendant yng Nghymru, mewn dyfodol ansicr, sy'n sicrhau'r cyfleoedd mwyaf i'n dull o reoli pysgodfeydd a'n polisi pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol.
56. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU yn ystod taith y Bil ac yn ymwneud yn llwyr â'r Cynulliad drwy'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

57. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i'r ffaith bod y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn y Bil hwn.

Casgliad

58. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU oherwydd bod angen gweithredu ar lefel y DU gyfan er mwyn creu'r Fframwaith Pysgodfeydd. Dim ond mewn Bil gan Senedd y DU y gellir gwneud hynny. Mae'r Bil hwn hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau y bydd yn rhaid eu gosod cyn diwedd y cyfnod gweithredu. Ar gyfer pwerau nad ydynt yn ymwneud â fframwaith, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ac mewn ffordd bendant yng Nghymru, hyd nes y gallwn gyflwyno Bil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru.

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Chwefror 2020